


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Strategaeth Ddigwyddiadau Genedlaethol Cymru: Cynllun Gweithredu

© Steelhouse Festival

Fersiwn: Mehefin 2023

# Cyflwyniad

Lansiwyd Strategaeth Ddigwyddiadau Genedlaethol Cymru ym mis Gorffennaf 2022 ac mae'n nodi'r Weledigaeth, y Genhadaeth a'r Amcanion a ddangosir isod.

Mae sylfeini'r Strategaeth hon yn seiliedig ar dri philer sef Pobl, Lle a Phlaned a sut y gall digwyddiadau gyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant genedlaethol.

Lluniwyd y cynllun gweithredu hwn gyda chymorth Grŵp Cynghori Diwydiant Digwyddiadau Cymru a'i is-grwpiau, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r Sectorau Digwyddiadau, gan sicrhau bod y cynllun hwn yn cael ei arwain gan y diwydiant.

## Y WELEDIGAETH I GYMRU

**Bod Cymru yn cynnal digwyddiadau eithriadol sy'n cefnogi llesiant ei phobl, ei lleoedd a'r blaned.**

## DATGANIAD CENHADAETH

**Diwydiant digwyddiadau cysylltiedig sy'n cynnig, yn sicrhau, yn cefnogi ac yn cynnal portffolio cytbwys o ddigwyddiadau ledled Cymru, sy'n gwneud cyfraniadau mesuradwy at y saith nod llesiant.**

## Amcanion

- Diwydiant digwyddiadau cyson.
- Digwyddiadau yng Nghymru sy'n adlewyrchu ac yn dathlu'r pethau hynny sy'n wirioneddol Gymreig.
- Sicrhau ein bod yn cynnal digwyddiadau ledled Cymru mor eang â phosibl yn ddaearyddol a'u bod yn cael eu cynnal yn ystod gwahanol dymhorau.
- Cryfhau economi Cymru.
- Cryfhau proffil, enw a dylanwad Cymru.

"Mae Cymru yn gwneud pethau mawr ac mae ganddi'r potensial i barhau i wneud pethau gwych gan ein bod bellach yn fwy hyderus ac yn edrych at y dyfodol."

*(Y sector digwyddiadau busnes)*

# Targedau a Blaenoriaethau

| Targedau | Blaenoriaethau |
|---|---|
| Dangos y cyfraniad y mae digwyddiadau yng Nghymru yn ei wneud i'r saith nod llesiant | – Adolygu dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) a chyflwyno'n wahanol i ddangos diwydiant cyson<br>– Datblygu matrics sy'n dangos sut y cyflawnir y Nodau Llesiant |
| Cefnogi'r diwydiant digwyddiadau i ddatblygu llais cryf ac i fod yn fwy cyson a chystadleuol, cynyddu ein helw masnachol, cyflawni mwy drwy'r digwyddiadau rydym yn eu cynnal a chefnogi diwydiant cryfach a mwy cadarn **(Diwydiant Cyson)** | – Cydweithio tuag at ganlyniadau ar y cyd drwy grŵp cynghori diwydiant digwyddiadau Cymru (EWIAG), dan arweiniad y Diwydiant â Chadeirydd annibynnol a phroses sefydledig ar gyfer ymgysylltu ag is-grwpiau sector a'r diwydiant ehangach<br>– Sefydlu sioeau teithiol a digwyddiadau 'cwrdd â'r diwydiant'<br>– Darparu diweddariadau rheolaidd i Weinidog yr Economi drwy Grŵp Rhanddeiliaid Economi Ymwelwyr a sicrhau presenoldeb Gweinidogol yn EWIAG pan fo hynny'n briodol |
| Cefnogi twf digwyddiadau sy'n wirioneddol Gymreig, naill ai'n draddodiadol neu'n gyfoes, ac sy'n cefnogi'r brand cenedlaethol cryf sy'n helpu i hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol **(Dilysrwydd)** | – Cynyddu gweithgarwch cyfathrebu a marchnata<br>– Darparu gwybodaeth ar gyfryngau cymdeithasol/gwefan |
| Annog ymwelwyr i ddod i Gymru ar gyfer digwyddiadau ym mhob cwr o'r wlad drwy gydol y flwyddyn **(Cymru Gyfan)** | – Dadansoddi'r portffolio presennol o ddigwyddiadau<br>– Cynyddu'r gwaith o gyfathrebu a gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Croeso Cymru |
| Datblygu sgiliau, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus i'r rheini sy'n gweithio yn y diwydiant gan gynnwys gwirfoddolwyr **(Pobl)** | – Archwilio bylchau o ran sgiliau<br>– Cronfa Datblygu'r Sector<br>– Ymgysylltu â'r Partneriaethau Sgiliau a Dysgu Rhanbarthol i ddatblygu strategaeth a deall themâu trawsbynciol gyda sectorau eraill |
| Optimeiddio'r asedau sydd gan Gymru cymaint â phosibl, yn ogystal ag edrych ar anghenion y dyfodol **(Lle)** | – Archwilio asedau sy'n benodol i ddigwyddiadau yng Nghymru<br>– Cyfleoedd i'r farchnad fel uchod |
| Ystyried cynaliadwyedd amgylcheddol hirdymor digwyddiadau a'u cefnogi i fesur a lleihau eu hôl troed **(Planed)** | – Cronfa cynaliadwyedd<br>– Pecyn cymorth |

"Mae'r cynllun gweithredu hwn yn adeiladu ar ddegawd euraidd o ddigwyddiadau chwaraeon eiconig yng Nghymru ac yn gosod targedau uchelgeisiol i sicrhau bod y sector yn cyd-fynd â'r Gymru a Garem."

*(Sector Chwaraeon)*

# Y Cynllun

| | Cam Gweithredu | Wedi'i arwain gan | Sut y byddwn yn cyflawni'r weithred | Blaenoriaeth (tymor byr/ canolig/hir dymor) |
|---|---|---|---|---|
| **Cysoni'r diwydiant** | | | | |
| C1 | Cymorth parhaus ar gyfer dull gweithredu hirdymor o ddatblygu digwyddiadau, yn hytrach na fesul blwyddyn, gan roi rhywfaint o sicrwydd i'r rheini yn y diwydiant gan gynnwys buddiannau ehangach a gwaddol yn ystod y cam cynllunio, er mwyn cynllunio ar gyfer twf, a'i gyflwyno | Llywodraeth Cymru | – Adolygu prosesau ariannu a dogfennaeth gan gynnwys y meini prawf am fwy o gytundebau ariannu amlflwyddyn<br>– Lansio cronfa datblygu'r sector<br>– Bydd y Cynllun Gweithredu yn cefnogi penderfyniadau ariannol a'r gwaith o osod cyllidebau | B |
| C2 | Nodi digwyddiadau ag agwedd a photensial i dyfu, gan eu datblygu a'u cefnogi'n strategol dros amser | Llywodraeth Cymru a'r Diwydiant | – Defnyddio rhwydwaith is-grwpiau Grŵp Cynghori'r Diwydiant Digwyddiadau Cymru (EWIAG) i helpu i nodi unrhyw ddigwyddiadau newydd y gellid eu tyfu gyda chymorth Llywodraeth Cymru<br>– Sioeau teithiol a sianeli cyfathrebu presennol<br>– Parhau i drafod gyda phartneriaid ehangach megis CCC, BBC, a Chwaraeon Cymru | B/C |
| C3 | Canolbwyntio'n benodol ar ddigwyddiadau sy'n helpu i wasgaru ymwelwyr yn well dros dymhorau a/neu ardaloedd daearyddol, fel digwyddiadau busnes a digwyddiadau cyfranogiad torfol | Llywodraeth Cymru a'r Diwydiant | – Adolygu'r meini prawf asesu i sicrhau bod gwasgariad tymhorol/daearyddol yn cael ei ystyried yn ddigonol<br>– Presenoldeb rheolaidd mewn digwyddiadau arddangos fel IMEX, Sportaccord etc.<br>– Cyfathrebu'r uchelgais i'r sector<br>– Nodi trefnwyr y digwyddiadau hynny a allai symud gweithgaredd i dymor ysgwydd a/neu sy'n gallu symud neu ehangu i leoliad gwahanol, a gweithio gyda nhw | B/C |
| C4 | Trefnu digwyddiadau neu raglenni o ddigwyddiadau fel y gwnaed yn llwyddiannus, er enghraifft, yn seiliedig ar thema canmlwyddiant Dylan Thomas a chanmlwyddiant Roald Dahl | Llywodraeth Cymru | – Nodi rhestr hir o opsiynau posibl yn seiliedig ar eiconau/pen-blwyddi etc. er mwyn trafod gyda'r holl bartneriaid<br>– Sioeau teithiol i helpu i hyrwyddo'r cyfleoedd<br>– Gweithio gyda Croeso Cymru i gefnogi'r blynyddoedd thema | C |
| C5 | Annog a chefnogi ymdrechion i ddatblygu strategaethau digwyddiadau llywodraeth leol cyson | Llywodraeth Cymru | – Sefydlu is-grŵp awdurdodau lleol EWIAG<br>– Cysylltu â CLILC | C |

| | Cam Gweithredu | Wedi'i arwain gan | Sut y byddwn yn cyflawni'r weithred | Blaenoriaeth (tymor byr/ canolig/hir dymor) |
|---|---|---|---|---|
| C6 | Ystyried yr adnoddau a ddefnyddir mewn digwyddiadau, er enghraifft o ble y daw'r adnoddau ac o beth y maent wedi'u gwneud. (Cysylltu â'r pecyn cymorth yn P17) | Llywodraeth Cymru | – Cronfa Gynaliadwyedd a rhannu arferion gorau o brosiectau sy'n cael cymorth | B/C |
| C7 | Trefnu cyfarfodydd parhaus a rheolaidd ar gyfer grŵp cynrychiolwyr y diwydiant digwyddiadau fel fforwm cydweithredol. Dylid strwythuro'r fforwm hwn i ddiwallu anghenion y diwydiant, er mwyn rhannu gwybodaeth, a sicrhau atebolrwydd wrth roi'r strategaeth hon ar waith. Dylai'r diwydiant ei arwain, dylai fod Cadeirydd annibynnol, a dylai gynnwys gwaith ymgynghori parhaus ag is-grwpiau sector | Llywodraeth Cymru / y Diwydiant | – Sefydlu EWIAG mewn fformat diwygiedig gyda Chadeirydd annibynnol ac is-grwpiau gan gynnwys is-grŵp ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol<br>– Datblygu Cylch Gorchwyl<br>– Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth ysgrifenyddiaeth a helpu i arwain blaenraglen waith | B |
| C8 | Trefnu sioeau teithiol a chyfarfodydd rheolaidd ledled Cymru sy'n galluogi'r diwydiant i ryngweithio a dysgu gan ei gilydd; hefyd gysylltu â rhwydweithiau ledled y DU ehangach ac yn rhyngwladol er mwyn cyflwyno syniadau, arferion gorau a chysylltiadau | Llywodraeth Cymru/ y Diwydiant | – Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r set gyntaf o sioeau teithiol yn 2023 ac yna'n edrych ar gyfres yn seiliedig ar bynciau penodol e.e. sgiliau<br>– Cyfarfodydd rheolaidd yr Is-grwpiau (Chwaraeon, Busnes a Chelfyddydau/ Diwylliant/Byw)<br>– Ymgysylltu â Grwpiau Digwyddiadau ledled y DU, megis BVEP, UK Sport | B |
| C9 | Cefnogi digwyddiadau er mwyn cydweithio i'w cynnal, a'u cysoni at ddibenion twristiaeth, er mwyn gwella digwyddiadau ei gilydd e.e. ystyried cysoni cyfleoedd ar gyfer digwyddiadau busnes ochr yn ochr â digwyddiadau diwylliannol neu chwaraeon mwy fel rhan o raglen ehangach | | – Adolygu portffolio o ddigwyddiadau sy'n cael cymorth ac ystyried cysylltiadau posibl<br>– Rhannu rhestr o'r digwyddiadau sy'n cael cymorth fel y gallant nodi eraill i gydweithio â nhw<br>– Trafodaethau gyda threfnwyr digwyddiadau am ddod â chyfarfodydd cyffredinol blynyddol/cynadleddau cysylltiedig i Gymru fel rhan o'r trafodaethau cymorth | C |
| C10 | Mabwysiadu dull mwy cydweithredol o dargedu a sicrhau digwyddiadau, gan gael barn y diwydiant ehangach fel rhan o'r broses a sicrhau bod y cymorth sydd ar gael ar gyfer digwyddiadau a buddiannau'r digwyddiadau hynny yn hysbys i bawb | | – Defnyddio EWIAG i geisio barn ehangach o'r diwydiant<br>– Sioeau teithiol ac eraill<br>– Hyrwyddo Cymru a'i seilwaith drwy gyfathrebu, dangos presenoldeb etc. | B/C |
| C11 | Lle mae cyfleoedd i gael cyllid o fwy nag un ffynhonnell e.e. Cyngor Celfyddydau Cymru a Digwyddiadau Cymru, sicrhau bod sianelau cyfathrebu clir a'r cysondeb gorau posibl er mwyn osgoi achosion o ddyblygu a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd. | Llywodraeth Cymru | – Ailsefydlu cyfarfodydd chwarterol gyda phartneriaid allweddol<br>– Ystyried y systemau presennol (e.e. BAS) i gofnodi ein grantiau fel bod sectorau busnes eraill yn ymwybodol ohonynt | B |

| | Cam Gweithredu | Wedi'i arwain gan | Sut y byddwn yn cyflawni'r weithred | Blaenoriaeth (tymor byr/ canolig/hir dymor) |
|---|---|---|---|---|
| **Dilysrwydd** | | | | |
| D12 | Sicrhau y caiff diwylliant Cymru a'r Gymraeg eu cynrychioli mewn digwyddiadau yng Nghymru, gan helpu i adrodd straeon Cymru i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd ar lefel sy'n briodol ar gyfer natur y digwyddiad dan sylw | | – Adolygu'r meini prawf asesu a dangosyddion perfformiad allweddol<br>– Datblygu astudiaethau achos i ddangos sut y gellir cyflawni hyn – e.e. drwy F & B, defnyddio cyflenwyr lleol etc.<br>– Chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth lunio digwyddiad y tu hwnt i ofynion cyfieithu e.e., cyfweld â thalent drwy gyfrwng y Gymraeg<br>– Datblygu pecyn adnoddau i helpu'r defnydd o'r Gymraeg mewn digwyddiadau<br>– Gweithio gyda digwyddiadau ar y cam actifadu i asesu, cynghori a chefnogi perchenogion digwyddiadau ar sut y gellir cyflawni hyn | B/C |
| D13 | Sicrhau bod digwyddiadau yn gwneud cyfraniad clir at gyflawni cymaint o'r saith nod llesiant i Gymru â phosibl | | – Ailddrafftio ein ffurflenni cais a dangosyddion perfformiad allweddol i gyd-fynd yn fwy amlwg â'r nodau llesiant<br>– Asesiad blynyddol ar gyfraniad at y nodau llesiant | B |
| D14 | Parhau i nodi, meithrin a chefnogi digwyddiadau cartref â chapasiti i dyfu (Cysylltu â D2 uchod) | | – Defnyddio'r rhwydwaith is-grwpiau'r EWIAG, i helpu i nodi unrhyw ddigwyddiadau newydd y gellid eu tyfu gyda chymorth Llywodraeth Cymru<br>– Sioeau teithiol a sianeli cyfathrebu presennol<br>– Parhau i drafod gyda phartneriaid ehangach fel CCC | B/C |
| D15 | Darparu gwell ymdeimlad o 'Gymreictod' ar gyfer digwyddiadau drwy, er enghraifft, tirwedd, morlin, hanes, diwylliant, bwyd a cherddoriaeth (Cysylltu â D12 a D21) | | – Darparu nodiadau sylwebu priodol ar gyfer trefnwyr digwyddiadau a'u partneriaid darlledu sy'n tynnu sylw at bwyntiau trafod diwylliannol a hanesyddol, e.e. defnyddio adnodd llyfrgell delweddau i gefnogi hyn<br>– Perthynas weithio agosach gyda sefydliadau mewnol/allanol eraill e.e. CADW | B/C |
| D16 | Canolbwyntio ar eiconau enwog o Gymru er mwyn datblygu cynigion cryf ar gyfer digwyddiadau | | – Datblygu proses flaengar i chwilio am ben-blwyddi eiconau Cymru | B/C |
| D17 | Meithrin gallu'r diwydiant digwyddiadau a chryfder y gadwyn gyflenwi yng Nghymru, er mwyn annog trefniadau caffael sy'n creu cadwyni cyflenwi lleol gwydn, yn unol â'r cynsail y dylem feddu ar y gallu a'r wybodaeth i ddarparu profiad gwirioneddol Gymreig | | – Cronfa Datblygu'r Sector<br>– Adeiladu ar y berthynas bresennol gyda darparwyr AB/AU<br>– Archwilio dichonoldeb digwyddiad 'cwrdd â'r diwydiant' ar gyfer trefnwyr a chyflenwyr | C |
| D18 | Cefnogi datblygiad economaidd rhanbarthol drwy annog cadwyn cyflenwi fyrrach a ffocws mwy lleol a rhanbarthol ar ddod o hyd i ddeunyddiau | | – Hyrwyddo canllawiau Effeithiau (cadwyni cyflenwi byrrach = mwy o effaith economaidd + mwy o ymdeimlad o le + mwy cynaliadwy) | C |

| | Cam Gweithredu | Wedi'i arwain gan | Sut y byddwn yn cyflawni'r weithred | Blaenoriaeth (tymor byr/ canolig/hir dymor) |
|---|---|---|---|---|
| D19 | Cefnogi dyheadau i sicrhau bod Cymru yn genedl iachach, er enghraifft drwy hyrwyddo bwydydd iachach mewn digwyddiadau neu gefnogi lefel uwch o weithgarwch corfforol | Y diwydiant | – Gweithio gyda threfnwyr digwyddiadau i rannu gohebiaeth yn gysylltiedig â byw'n iach<br>– Ymgysylltu â chymunedau drwy allgymorth<br>– Gweithio ar draws y Llywodraeth (yr Is-adran Fwyd, etc.) a hyrwyddo'r defnydd o gynnyrch Cymreig ac argaeledd | B/C |
| D20 | Nodi a dathlu digwyddiadau sy'n apelio'n lleol ac sy'n cynnig perchnogaeth gymunedol, gan gynnwys cymorth gan wirfoddolwyr | | – Hyrwyddo'r defnydd o https://volunteering-wales.net/?lang=CY<br>– Cydweithio yn effeithiol â sefydliadau lleol sydd eisoes â gweithrediadau recriwtio gwirfoddolwyr cryf, pan fo'n briodol, e.e. WRU neu RWS, awdurdodau lleol/ cynghorau cymuned, er mwyn helpu i recriwtio gwirfoddolwyr<br>– Hyrwyddo astudiaethau achos o arferion gorau | B/C |
| D21 | Nodi beth sy'n gwneud profiad digwyddiadau yn wahanol yng Nghymru, ac o ran asedau naturiol unigryw, a thynnu sylw perchenogion digwyddiadau at hynny | | – Datblygu astudiaethau achos i ddangos sut y gellir cyflawni hyn – e.e. drwy F & B, defnyddio cyflenwyr lleol etc.<br>– Chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth lunio digwyddiad y tu hwnt i ofynion cyfieithu e.e., cyfweld â thalent drwy gyfrwng y Gymraeg<br>– Datblygu pecyn adnoddau i helpu'r defnydd o'r Gymraeg mewn digwyddiadau | C |
| D22 | Defnyddio naratif dilys y portffolio digwyddiadau fel un o wahaniaethau amlwg brand rhyngwladol Cymru | | – Yn gysylltiedig fel uchod a chysylltiad â chanllawiau brand Croeso Cymru<br>– Cysylltu digwyddiadau â blynyddoedd thema | B/C |
| **Cymru Gyfan** | | | | |
| C23 | Dadansoddi gwasgariad digwyddiadau portffolio presennol a digwyddiadau portffolio yn y dyfodol a gefnogir gan Digwyddiadau Cymru er mwyn sicrhau bod cymorth digwyddiadau wedi'i ddosbarthu ledled y wlad gyfan, gan gynnwys yr ardaloedd hynny y gallai twristiaeth ddomestig yn seiliedig ar ddigwyddiadau yn ogystal ag ymweliadau rhyngwladol fod o fudd iddynt | | – Dadansoddi a mapio digwyddiadau presennol i nodi bylchau mewn genres digwyddiadau neu wasgariad daearyddol | B |

| | Cam Gweithredu | Wedi'i arwain gan | Sut y byddwn yn cyflawni'r weithred | Blaenoriaeth (tymor byr/ canolig/hir dymor) |
|---|---|---|---|---|
| C24 | Ffocws penodol ar sicrhau bod digwyddiadau yn cwmpasu amrywiaeth eang o genres er mwyn apelio at gymaint o bobl â phosibl. Bydd portffolio cytbwys yn ystyried oedran, rhanbarth, ethnigrwydd, crefydd, cost mynychu ac ati er mwyn sicrhau bod y digwyddiadau a gynigir yn gyffredinol gynhwysol a hygyrch (Yn cysylltu â C1) | | – Gwella'r mecanweithiau presennol ar gyfer dal yr wybodaeth hon fel rhan o waith asesu a monitro<br>– Datblygu astudiaethau achos<br>– Cysylltu ag adolygu ffurflenni cais<br>– Adolygu dangosyddion perfformiad allweddol a'r meini prawf asesu | C |
| C25 | Nodi digwyddiadau y gellir eu cynnal yn ystod y tu allan i'r tymor twristiaeth traddodiadol a'r rheini â'r potensial mwyaf i'w tyfu | Llywodraeth Cymru a'r Diwydiant | – Archwilio digwyddiadau nad ydynt yn "ddibynnol ar dywydd cynnes/sych" e.e. digwyddiadau dan do (digwyddiadau diwylliannol a chwaraeon), digwyddiadau busnes<br>– Hefyd, trafod â threfnwyr digwyddiadau y posibilrwydd i symud unrhyw ddigwyddiadau presennol i dymor ysgwydd<br>– Nodi a hyrwyddo lleoliadau gyda gofod addas dan do/ wedi'i orchuddio | C |
| C26 | Gweithio gyda chymunedau sy'n cynnal digwyddiadau er mwyn sicrhau ymrwymiad ac ychwanegedd. Bydd adrodd straeon yr holl ddigwyddiadau a'r buddiannau lleol, y tu hwnt i'r buddiannau economaidd yn unig, o gymorth yn hyn o beth | Y diwydiant | – Datblygu astudiaethau achos o ddigwyddiadau presennol i dynnu sylw at yr hyn sydd wedi gweithio'n dda a gellir ei ddefnyddio fel model ymgysylltu ar gyfer cymunedau newydd<br>– Cysylltu ag Awdurdodau Lleol | B/C |
| C27 | Cysylltu â phartneriaid a all helpu drwy gyrraedd cymunedau gwahanol e.e. creu gwell cysylltiadau rhwng digwyddiadau busnes a darparwyr trydyddol ar gyfer cynnwys a gallu | Y diwydiant | – Ailfywiogi cysylltiadau â darparwyr AB/AU<br>– Datblygu cysylltiadau â phartneriaid newydd, cyrff cydraddoldeb etc.<br>– Cronfa Datblygu'r Sector | C |
| C28 | Sicrhau y caiff cynnwys digwyddiadau ei hyrwyddo i gynulleidfa y tu allan i Gymru er mwyn annog ymweliadau a phroffil rhyngwladol cadarnhaol | Llywodraeth Cymru/y Diwydiant | – Gwneud mwy o ddefnydd o bartneriaid a sianeli cyfathrebu, gweithio gyda Croeso Cymru, cysylltiadau diwydiannol, BW etc. i hyrwyddo digwyddiadau<br>– Fel rhan o'r asesiad o unrhyw ddigwyddiad, ystyried a yw cynlluniau marchnata yn ddigonol a rhoi cymorth o ran sut y gellir datblygu'r rhain ymhellach | B/C |
| Pobl | | | | |
| P1 | Cefnogi twf sgiliau, gwybodaeth a gallu sy'n benodol i'r diwydiant digwyddiadau drwy gynadleddau, gweminarau a chyfleoedd rhannu gwybodaeth, gan gynnwys cyfleoedd systematig i uwchsgilio gan arbenigwyr blaenllaw yn lleol ac yn rhyngwladol | Y diwydiant | – Archwilio bylchau sgiliau ar draws y sector i ddeall y problemau<br>– Ymwneud â phartneriaethau Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol yn weithredol<br>– Cysylltu â sectorau eraill i ddeall themâu trawsbynciol a datrysiadau posibl | B |

| | Cam Gweithredu | Wedi’i arwain gan | Sut y byddwn yn cyflawni’r weithred | Blaenoriaeth (tymor byr/ canolig/hir dymor) |
|---|---|---|---|---|
| P2 | Manteisio ar waith cyrff eraill fel y sector addysg a darparwyr hyfforddiant, er mwyn cynnig rhaglen gydgysylltiedig ar gyfer meithrin sgiliau mwy cyffredinol e.e. hygyrchedd, iechyd a diogelwch, cynaliadwyedd ac amrywiaeth ddiwylliannol | Y diwydiant | – Bydd gweithgarwch yn cael ei arwain gan ganlyniadau archwiliadau | C |
| P3 | Gweithio gyda Gyrfa Cymru i greu cyflenwad o bobl ifanc i ymuno â'r diwydiant, gan gynnwys digwyddiadau i ddenu unigolion sy'n gadael yr ysgol a graddedigion yn lle'r llu o bobl y gwnaeth y diwydiant eu colli yn ystod pandemig COVID-19, gan gynnwys defnyddio ei adnodd swyddi gwag i bob oedran | Y diwydiant | – Datblygu cynllun, gyda chymorth ymgyrch farchnata i hyrwyddo’r Sector Digwyddiadau fel gyrfa o ddewis | C |
| P4 | Chwilio am gyfleoedd mentora, lleoliadau a theithiau arsylwi gan amrywiol rannau o'r diwydiant er mwyn i drefnwyr allu dysgu gan ei gilydd | Y diwydiant | – Bydd gweithgarwch yn cael ei arwain gan ganlyniadau archwiliadau | B/C |
| P5 | Gweithio gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ledled Cymru i nodi bylchau o ran sgiliau ac ymdrin â nhw ac i roi camau gweithredu ar waith gyda'r diwydiant. Nodi meysydd lle y gall fod angen sgiliau penodol, fel digwyddiadau busnes ac e-ddigwyddiadau, a chynigion newydd i lenwi'r bylchau hyn | Y diwydiant | – Nodi arweinydd diwydiant i fod yn aelod o’r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol a gweithio gyda nhw ar ganlyniadau’r archwiliadau sgiliau | B |
| P6 | Hyrwyddo'r canllawiau sydd ar gael i gefnogi'r defnydd o’r Gymraeg mewn digwyddiadau | Llywodraeth Cymru | – Datblygu pecyn adnoddau i helpu’r defnydd o’r Gymraeg mewn digwyddiadau<br>– Chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg wrth lunio digwyddiad y tu hwnt i ofynion cyfieithu e.e., cyfweld â thalent drwy gyfrwng y Gymraeg<br>– Gweithio gyda phartneriaid allanol e.e. Comisiynydd y Gymraeg i adeiladu ar arferion gorau sydd eisoes yn bodoli | C |
| P7 | Hyrwyddo'r canllawiau a'r hyfforddiant sydd ar gael i helpu unigolion i uwchsgilio wrth gynnal digwyddiadau cynaliadwy, gan gynnwys sut y gellir mesur a lleihau effaith amgylcheddol digwyddiad | Llywodraeth Cymru | – Hyrwyddo canllawiau Effeithiau (cadwyni cyflenwi byrrach = mwy o effaith economaidd + mwy o ymdeimlad o le + mwy cynaliadwy)<br>– Datblygu astudiaethau achos o ddigwyddiadau presennol | C |
| P8 | Dod o hyd i ffyrdd o gyfathrebu â gwirfoddolwyr, eu cydgysylltu a'u datblygu y tu hwnt i hyfforddiant fesul digwyddiad unigol | Llywodraeth Cymru/y Diwydiant | – Hyrwyddo’r defnydd o https://volunteering-wales.net/?lang=CY<br>– Archwilio cyfleoedd gyda sefydliadau fel LANTRA | C |
| P9 | Annog busnesau yn y diwydiant i helpu eu pobl i uwchsgilio | Llywodraeth Cymru/y Diwydiant | – Sefydlu Cronfa Datblygu’r Sector | B |

| | Cam Gweithredu | Wedi'i arwain gan | Sut y byddwn yn cyflawni'r weithred | Blaenoriaeth (tymor byr/ canolig/hir dymor) |
|---|---|---|---|---|
| **Lle** | | | | |
| L10 | Cynnal archwiliad llawn o asedau sy'n benodol i ddigwyddiadau yng Nghymru, sydd ar gael i'r diwydiant digwyddiadau yng Nghymru a'i ddarpar gleientiaid (fel trefnwyr cynadleddau proffesiynol ar gyfer digwyddiadau busnes) a sicrhau y caiff ei gynnal ar sail awdurdodau lleol er mwyn datblygu perchenogaeth leol a ffordd o feddwl strategol mewn perthynas â digwyddiadau (cysylltu â D23) | Llywodraeth Cymru | – Ailedrych ar y gronfa ddata bresennol ac ystyried a oes angen contract allanol | C |
| L11 | Nodi a hyrwyddo asedau naturiol, fel morliniau a thirwedd, sy'n helpu i ddiffinio Cymru ac y gellir eu cynnwys wrth gynnal a hyrwyddo'r digwyddiad | Llywodraeth Cymru | – Darparu nodiadau sylwebu priodol ar gyfer trefnwyr digwyddiadau a'u partneriaid darlledu sy'n tynnu sylw at bwyntiau trafod diwylliannol a hanesyddol ac asedau naturiol<br>– Perthynas weithio agosach gyda sefydliadau mewnol/allanol eraill e.e. CADW, Croeso Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, cysylltu â stori Llwybr yr Arfordir etc. | C |
| L12 | Sicrhau bod digwyddiadau a gaiff eu nodi fel rhai i'w tyfu yn addas at y diben i bob rhanbarth, gan gynnwys eu maint a'r seilwaith ategol | Llywodraeth Cymru | – Adolygu dangosyddion perfformiad allweddol a'r meini prawf asesu<br>– Trafod yn is-grŵp yr Awdurdodau Lleol a thrafod ag Awdurdodau Lleol unigol pan fo'n briodol | B |
| L13 | Rhoi system atgyfeirio ar waith sy'n helpu lleoliadau i gydweithio lle bynnag y bo'n bosibl, fel y caiff opsiwn mwy priodol ei awgrymu os na fydd un lleoliad yn addas, gan ddefnyddio asedau cymaint â phosibl | Llywodraeth Cymru | – Bydd yr archwiliad uchod o asedau yn dylanwadu ar sut y bydd hyn yn cael ei ddatblygu<br>– EWIAG ac is-grwpiau i ddarparu'r cysylltiad at atgyfeiriadau cymorth | C |
| L14 | Nodi'r ffactorau sy'n atal twf digwyddiadau fel llety, trafnidiaeth gyhoeddus, Wi-Fi, cyfleusterau gwefru trydan i geir ac eiriolwyr o blaid datblygiadau allweddol a fyddai'n galluogi newid sylweddol yn y diwydiant (gan ddefnyddio digwyddiadau i gefnogi'r achos busnes o blaid hynny) | Llywodraeth Cymru/y Diwydiant | – Defnyddio'r archwiliad uchod o asedau i helpu i nodi 'mannau oer' i'w hystyried ymhellach<br>– Archwilio dichonoldeb digwyddiad 'cwrdd â'r diwydiant' ar gyfer trefnwyr a chyflenwyr y gellid eu defnyddio i ddarparu datrysiadau dros dro pan nad yw datblygiad hirdymor yn realistig | C |

"Mae sicrhau bod Cymru ar flaen y gad o ran meddwl am sut olwg sydd ar y dyfodol a'n cyfrifoldebau gwleidyddol ac o safbwynt cynaliadwyedd yn hollbwysig i'r wlad a'r blaned. Felly, mae'n diffinio ein cenedl."

*(Y sector cerddoriaeth)*

| | Cam Gweithredu | Wedi'i arwain gan | Sut y byddwn yn cyflawni'r weithred | Blaenoriaeth (tymor byr/ canolig/hir dymor) |
|---|---|---|---|---|
| Planed | | | | |
| P15 | Datblygu a rhannu methodoleg safonol, lle y bo'n bosibl yn unol â dangosyddion a mesurau presennol, ar gyfer digwyddiadau o bob maint er mwyn mesur eu hôl troed amgylcheddol | Llywodraeth Cymru | – Datblygu'r offeryn eventIMPACTS presennol | C |
| P16 | Mesur effaith amgylcheddol y portffolio digwyddiadau ehangach, a dangos sut mae'r effaith hon yn lleihau dros amser | Llywodraeth Cymru | – Adolygu'r meini prawf asesu a dangosyddion perfformiad allweddol<br>– Gwella'r mecanweithiau presennol ar gyfer dal gwybodaeth amgylcheddol fel rhan o waith asesu a monitro | C |
| P17 | Datblygu pecyn cymorth amgylcheddol er mwyn ei gwneud hi'n haws rhannu gwybodaeth ar draws sectorau digwyddiadau er mwyn bod yn fwy effeithlon a sicrhau y caiff gwersi a ddysgir o arferion gorau eu lledaenu'n eang | Llywodraeth Cymru | – Datblygu pecyn adnoddau i helpu'r defnydd o arferion mwy cynaliadwy mewn digwyddiadau, gan dynnu ar arbenigedd o fewn Llywodraeth Cymru yn ogystal â phartneriaid allanol e.e. drwy bartneriaeth Eventsimpact<br>– Sefydlu Cronfa Gynaliadwyedd | C |
| P18 | Addysgu trefnwyr digwyddiadau unigol a'u helpu i fod yn hyrwyddwyr ac i rannu enghreifftiau gweithredol o'r arferion amgylcheddol gorau | Llywodraeth Cymru/y Diwydiant | – Sefydlu cronfa Gynaliadwyedd a sicrhau bod allbynnau'n cael eu rhannu ar draws y diwydiant<br>– Ymgysylltu ag arbenigwyr megis WRAP a nodi digwyddiadau a all weithredu fel hyrwyddwyr dros ymgyrchoedd penodol (e.e. atal gwastraff bwyd mewn digwyddiadau)<br>– Cyflwyniadau mewn Sioeau teithiol<br>– Creu cylchlythyrau rheolaidd yn y sector lle gellir rhannu arferion da a'r cyngor diweddaraf | C |
| P19 | Annog twristiaeth gynaliadwy, gan ddarbwyllo pobl i ymgymryd â llai o deithiau ond i aros am gyfnod hwy, gan annog pobl sy'n mynychu digwyddiadau i geisio ymestyn eu cyfnod twristiaeth | Llywodraeth Cymru | – Gweithio'n agos gyda Croeso Cymru ar negeseuon allweddol<br>– Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu i berchenogion/mynychwyr digwyddiadau er mwyn eu galluogi i ymgysylltu ag ymgyrchoedd Croeso Cymru | C |
| P20 | Annog dull gweithredu ar sail economi gylchol drwy leihau ac ailddefnyddio ac ystyried defnyddio deunyddiau ac adnoddau wedi'u gwneud o ddeunyddiau wedi'u hailweithgynhyrchu, eu hadnewyddu a'u hailgylchu neu sy'n dod o ddeunyddiau carbon isel a chynaliadwy fel pren (Cysylltu â P17) | Llywodraeth Cymru/y Diwydiant | – Datblygu pecyn adnoddau i helpu i ddefnyddio dull economi gylchol gan gynnwys astudiaethau achos | C |

# Sut Beth Fydd Llwyddiant?

Erbyn 2030, os bydd y strategaeth hon yn llwyddiannus, dylem weld newid amlwg yn y portffolio digwyddiadau, y diwydiant digwyddiadau yn ehangach, ac i Gymru.

Byddai hyn yn cynnwys y canlynol:

- Diwydiant sy'n gysylltiedig ac yn gydweithredol, yn gydnerth ac yn gydlynus
- Portffolio o ddigwyddiadau sy'n adlewyrchu pobl Cymru a Chymru fel cenedl yn gadarn
- Portffolio ar gyfer Cymru gyfan, wedi'i ddosbarthu ar draws tymhorau, genres, a chan apelio'n eang i bawb
- Portffolio o ddigwyddiadau lle caiff y canlyniadau a gyflawnir i Gymru eu mesur a'u rhannu
- Diwydiant lle caiff pobl gyfle i feithrin sgiliau newydd
- Strategaeth a roddir ar waith ym mhob rhan o'r diwydiant, lle y caiff rolau penodol pob parti eu deall a'u dwyn ynghyd o dan gorff cynrychiolwyr y diwydiant digwyddiadau
- Strategaeth sy'n parhau'n ddogfen fyw ac sy'n adlewyrchu newidiadau cyfnewidiol Cymru a'r diwydiant digwyddiadau wrth iddo barhau i ddatblygu




© AWE / Penwythnos y Cwrs Hir

Pob delwedd © Hawlfraitn y Goron 2023 oni nodir yn wahanol.
OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47534, ISBN digidol 978-1-83504-256-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg






© Ras Cefnfor Volvo